*__Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.__*

# Polisi Defnydd Derbyniol o TG

## Cwmpas a Diben y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl ddefnyddwyr cyfleusterau TG sy'n eiddo, yn cael eu prydlesu neu eu llogi gan Goleg Caerdydd a'r Fro; holl ddefnyddwyr cyfleusterau TG ar safle'r Coleg, a holl ddefnyddwyr cyfleusterau TG sydd wedi cysylltu â rhwydwaith y Coleg, yn cynnwys dyfeisiau personol. Mae'n rhaid i ddefnyddwyr gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd neu reoliadau lleol a arddangosir cyfochr â chyfleusterau cyfrifiadura neu ar sgriniau cyfrifiaduron.

Mae'r defnydd o gyfleusterau TG yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 a rheoliadau dilynol, a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990 a Rheoliadau Coleg Lleol.

Mae'r Coleg yn cadw'r hawl i fonitro'r defnydd o'i gyfleusterau cyfrifiadura, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cael eu defnyddio'n gywir yn unol â'r polisi hwn. Bydd gwaith monitro o'r fath yn cael ei wneud ar hap neu ar gyfnodau penodol, yn ddibynnol ar y cyfleuster cyfrifiadura.

*Yn sail i'r polisi hwn mae gweledigaeth y Grŵp - Ysbrydoledig, Cynhwysol a Dylanwadol a bydd yn cefnogi ein gwaith tuag at yr ysgogiadau allweddol, sef Ansawdd, Effeithlonrwydd a Thwf. Bydd y polisi yn ymgorffori'r egwyddorion canlynol:*

- *Rhaid i'r rheiny sy'n rhan o Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro fod yn **rhydd rhag gwahaniaethu**.*
- *Caiff dysgwyr eu cefnogi i'w **galluogi** nhw i gyflawni eu **potensial** tra maent yn dysgu, mewn amgylchedd sy'n lleihau neu'n cael gwared ar anfantais, yn cymryd camau i fodloni eu hanghenion ac yn annog cyfranogiad.*
- *Byddwn yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i **ddatblygu'n** llwyddiannus drwy gydol eu bywydau.*

## Datganiadau'r Polisi

*Defnydd Derbyniol*

Efallai y defnyddir rhwydwaith a Rhyngrwyd Coleg Caerdydd a'r Fro gan staff neu fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gyfer unrhyw weithgaredd cyfreithiol sy'n rhan o hyrwyddo nodau a pholisïau'r Coleg.



| Rhif Adolygiad: | 5 |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu Diwethaf: | 12/09/22 |
| Dyddiad Adolygu Nesaf: | 12/09/24 |

Efallai y codir tâl i ddefnyddio rhai cyfleusterau.  Gall methu â thalu'r costau sy'n weddill arwain at wasanaethau a/neu ddyfarniadau yn cael eu gwrthod i chi.

*Defnydd Annerbyniol*

Ni ddylai dysgwyr achosi unrhyw fath o ddifrod i offer cyfrifiadura neu feddalwedd y Coleg, nac i unrhyw un o'r ystafelloedd a'u cyfleusterau a gwasanaethau sy'n cynnwys yr offer a'r feddalwedd hynny.  Mae'r term "difrod" yn cynnwys newidiadau i galedwedd neu feddalwedd sy'n ennyn amser a/neu gostau i adfer y system i'w chyflwr gwreiddiol, er nad yw'n niweidio'r caledwedd neu feddalwedd yn barhaol. Mae'n bosib y bydd yn rhaid i'r person neu bobl a achosodd y difrod dalu am adfer y feddalwedd neu offer, cael offer newydd a/neu ddarparu offer dros dro.  Pennir y gost gan yr awdurdod penodedig.

Ni ddylid defnyddio rhwydwaith neu Ryngrwyd y Coleg ar gyfer unrhyw rai o'r canlynol:

- Creu neu anfon unrhyw luniau, data neu ddeunydd arall sy'n ymosodol, anllad neu anweddus, neu unrhyw ddata y gellir ei droi yn lluniau neu ddeunydd anllad neu anweddus (ac eithrio at ddibenion ymchwil gyfreithiol wedi ei goruchwylio);
- Creu neu anfon deunydd sydd wedi'i ddylunio i, neu'n debygol o, achosi annifyrrwch, anghyfleustra neu bryder diangen;
- Creu neu anfon deunydd difenwol;
- Cysylltu unrhyw ddyfais â rhwydwaith y Coleg heb ganiatâd blaenorol gan awdurdod penodedig priodol (cysylltwch â Phennaeth TG am ragor o fanylion);
- Anfon deunydd sy'n torri hawlfraint person arall;
- Rhannu neu ddogfennu manylion mewngofnodi a/neu gyfrineiriau;
- Anfon deunydd masnachol neu hyrwyddol nas ofynnwyd amdano i sefydliadau defnyddwyr eraill, neu i sefydliadau sy'n gysylltiedig â rhwydweithiau eraill, arbed lle mae'r deunydd wedi ymgorffori ynddo, neu'n rhan ohono, gwasanaeth lle mae aelod o'r sefydliad defnyddwyr wedi dewis tanysgrifio iddo;
- Mynediad bwriadol heb awdurdod i gyfleusterau neu wasanaethau sydd ar gael drwy ddarpariaeth rhwydwaith neu Ryngrwyd y Coleg;

Gweithgareddau bwriadol gydag unrhyw rai o'r nodweddion canlynol:

- Llygru neu ddinistrio data defnyddwyr eraill;
- Amharu ar breifatrwydd defnyddwyr eraill;
- Tarfu ar waith defnyddwyr eraill;
- Defnyddio rhwydwaith a Rhyngrwyd y Coleg mewn modd sy'n gwrthod gwasanaeth i ddefnyddwyr eraill (er enghraifft, gorlwytho dolenni mynediad neu offer rhwydwaith yn ddiofal yn fwriadol);

- Parhau i ddefnyddio eitem o feddalwedd neu galedwedd rhwydweithio ar ôl i Eiddo a TG neu gorff awdurdodol wneud cais i atal defnydd am ei fod yn amharu ar weithrediad cywir darpariaeth rhwydwaith neu Ryngrwyd y Coleg;
- Camddefnydd arall o rwydwaith a/neu adnoddau rhwydweithio'r Coleg, megis cyflwyno "Firysau", "Mwydyn", "Ceffyl Pren Troea" neu raglenni eraill sydd ag effaith 'niweidiol' neu niwsans.
- Gweithredu'n fwriadol er mwyn twyllo unrhyw gamau a gymerir gan y Coleg i ddiogelu diogelwch ei systemau cyfrifiadurol.

Pe bai cyfleuster rhwydwaith neu Ryngrwyd y Coleg yn cael eu defnyddio i gael mynediad at rwydwaith arall, bydd unrhyw gamdriniaeth o bolisi defnydd derbyniol o'r rhwydwaith hwnnw yn cael ei ystyried yn ddefnydd annerbyniol o wasanaethau rhwydwaith a/neu Ryngrwyd y Coleg.

Defnyddio unrhyw gyfleusterau cyfrifiadura'r Coleg ar gyfer elw masnachol, er mwyn gwaith ar ran eraill neu ar gyfer defnydd personol neu breifat (ddim yn gysylltiedig â chwrs astudio myfyriwr yn y Coleg neu weithgareddau dilys aelod o staff), oni bai fod caniatâd blaenorol wedi ei roi gan yr awdurdod penodedig i ddefnyddio'r cyfleusterau, a bod tâl priodol yn cael ei godi ar gyfer y defnydd hwnnw;

*Gorfodaeth*

Bydd methu â dilyn unrhyw rai o'r rheoliadau hyn yn arwain at wrthod mynediad at gyfleusterau TG, lleol, ar draws y Coleg neu'n allanol, yn ôl disgresiwn Pennaeth(iaid) yr Adran(au) sydd dan sylw. Gall hefyd arwain at yr argymhelliad y dylid ymdrin â'r tresmasu drwy weithdrefnau disgyblu swyddogol y Coleg. Bydd tresmasu rheoliadau penodol yn arwain at gosbau penodol o dan gyfraith sifil neu drosedd, a gall y Coleg ddefnyddio cyfraith o'r fath.

*Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r:*

- *Holl ddysgwyr o fewn y Coleg, waeth beth fo'u dull neu leoliad astudio.*
- *Holl aelodau staff o fewn y Coleg.*
- *Holl bartneriaid a sefydliadau breiniol.*
- *Ymwelwyr i'r Coleg.*

## Cyfrifoldebau

Bydd y Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod:

- Y Polisi yn cael ei adolygu yn rheolaidd (yn unol â thelerau adolygu'r polisi) ac y rhoddir cyngor priodol ar y cynnwys. Y Prif Fwrdd sy'n cymeradwyo'r polisi.

Bydd yr Uwch Dîm Arwain a Gweithredol yn gyfrifol am:

- Datblygu trefniadau llywodraethu effeithiol a sicrhau bod polisïau perthnasol wedi'u sefydlu ar draws y coleg.
- Adolygu'r Polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau bod adnoddau digonol mewn lle i gynnal y dyletswyddau sydd wedi'u hamlinellu.
- Sicrhau bod staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol

Mae'r Cyfarwyddwr Systemau Gwybodaeth/Technoleg Gwybodaeth yn gyfrifol am:

- Gynnal pa mor gyfredol yw'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.
- Sicrhau y cymerir camau priodol i fonitro data sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn a bod y data hwn yn cael ei ddefnyddio i fod yn sail i arferion a'u gwella.

Mae'r Pennaeth Ansawdd, Addysgu a Dysgu Cynorthwyol yn gyfrifol am:

- Darparu hyfforddiant, datblygiad a chefnogaeth briodol i staff i sicrhau y gallant ddilyn y polisi.

Mae'r holl Staff Addysgu a Chefnogi Sgiliau yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu rheolwyr llinell am unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.
- Mynychu digwyddiadau datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol.

Mae'r dysgwyr yn gyfrifol am:

- Weithredu yn unol â'r polisi a'r gweithdrefnau cysylltiedig a hysbysu eu tiwtoriaid am unrhyw weithgarwch sy'n mynd yn groes i'r egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu.
- Mynychu sesiynau cynefino sy'n gysylltiedig â hyn.

## Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Yn unol â gweithdrefnau'r Coleg, ysgrifennwyd y Polisi hwn gan ystyried effaith unigolion yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r polisi hwn yn rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu Saesneg. Mae'r cyfrifoldeb sy'n deillio o'r Safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg, yn unol â hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg ac o ganlyniad yn ei gwneud hi'n haws i bobl ei defnyddio yn eu bywyd bob dydd.



| Rhif Adolygiad: | 5 |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu Diwethaf: | 12/09/22 |
| Dyddiad Adolygu Nesaf: | 12/09/24 |

## Goblygiadau Iechyd a Diogelwch

Nid oes goblygiadau Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r polisi hwn. Ymdrinnir ag unrhyw oblygiadau Iechyd a Diogelwch gweithgareddau ymchwil gan weithdrefnau'r ymchwil.

## Polisïau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Polisi Diogelu Data
- Diogelu

## Gweithdrefnau Cysylltiedig

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Iechyd a Diogelwch
- Gweithdrefn Diogelu Data
- Diogelu

## Cymeradwyo, Addasu ac Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob 2 flynedd.

## Lleoliad a Chael Gafael ar y Polisi

Mae'r polisi hwn ar gael ar wefan y coleg. Mae copi o'r polisi hwn ar gael yn Saesneg.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo:** | **14 Chwefror 2014** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol:** | **Cyfarwyddwr ISIT** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Y Prif Fwrdd** | **Arweinydd Gweithredol:** | **Y Prif Swyddog Gweithredu** |
| **Dyddiad adolygu:** | **12 Medi 2024** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** | **Ydy** |



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | 5 |
| **Dyddiad Adolygu Diwethaf:** | 12/09/22 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 12/09/24 |